



Adrodd am Gamymddwyn ac Anghymhwystra yn y Gwasanaeth Addysg

Adrodd am Achosion o Gamymddwyn neu Anghymhwystra Proffesiynol yn y
Gwasanaeth Addysg - Trefniadau Adrodd Diwygiedig o 12 Hydref 2009 ymlaen

Canllawiau

Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 018/2009

Dyddiad cyhoeddi: 25 Medi 2009

Yn disodli Cylchlythyr Rhif: 33/2005

Adrodd am Gamymddwyn ac Anghymhwystra yn y Gwasanaeth Addysg

Cynulleidfa

Cyrrff Llywodraethu Ysgolion, Awdurdodau Lleol yng Nghymru: Cyfarwyddwyr Addysg, Cyfarwyddwyr AD, Byrddau Lleol Diogelu Plant, Penaethiaid Ysgolion a Gynhelir, Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr ac Ysgolion Sefydledig, Perchenogion Ysgolion Annibynnol, Ysgolion Arbennig nas Cynhelir, Colegau Chweched Dosbarth, Unedau Cyfeirio Disgyblion, Prifathrawon Sefydliadau Addysg Bellach, Prifathrawon Sefydliadau Addysg Uwch, Undebau Athrawon, Awdurdodau Eglwysig ac Esgobaethol, Asiantaethau Cyflenwi Athrawon, Cwmnïau Gyrfa Cymru, Llywodraethwyr Cymru, Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, Cynghorau Addysgu Cyffredinol Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon a Chyngor Addysgu Iwerddon, y Cydffederasiwn Recriwtio a Chyflogaeth, a'r cyrff hynny a restrir yn Atodlen 1 i Reoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) 1999, fel y'u diwygiwyd.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r trefniadau adrodd newydd ar gyfer achosion o gamymddwyn proffesiynol ac anghymhwystra proffesiynol yn y gwasanaeth addysg, a ddaw i rym ar **12 Hydref 2009**, ar ôl cyflwyno Rheoliadau Addysg (Cyflwyno Gwybodaeth) (Cymru) 2009.

Camau i'w cymryd

Rhaid i bob cyflogwr ac asiant dalu sylw i'r canllawiau hyn os ydynt yn peidio â defnyddio gwasanaethau athro, athrawes neu berson arall, neu a fyddai hwyrach wedi peidio â defnyddio gwasanaethau athro, athrawes neu berson arall pe na bai'r person dan sylw wedi peidio â darparu'r gwasanaethau hynny. Mae'r canllawiau hyn yn disodli'r canllawiau blaenorol, sef cylchlythyr 33/2005 "Adrodd ar Achosion o Gamymddwyn neu Anghymhwystra Proffesiynol yn y Sector Addysg".

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:
Mrs Christine Chapple
Ffôn: 029 2082 6055
E-bost: gtcwenquiries@wales.gsi.gov.uk neu mewn ysgrifen i'r cyfeiriad isod.

Copïau ychwanegol

Gellir cael y rhain gan:
Mr Ryan Taylor,
Yr Is-adran Gwella Dysgu a Datblygiad Proffesiynol,
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau,
Llywodraeth Cynulliad Cymru, Adeilad y Goron,
Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ Ffôn: 029 2080 1030
E-bost: gtcwenquiries@wales.gsi.gov.uk

Dogfennau cysylltiedig

Amddiffyn Plant: Atal pobl Anaddas rhag Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc yn y Gwasanaeth Addysg (Cylchlythyr CCC 34/02); Gweithdrefnau Disgyblu Staff mewn Ysgolion (Cylchlythyr CCC 45/2004); Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru 005/2008, Diogelu Plant mewn Addysg.



Cynnwys

	Paragraff Rhif
Crynodeb	1.1 - 1.5
Cefndir	
Y Cynllun Fetio a Gwahardd	2.1 - 2.3
Crynodeb o'r newidiadau yn y trefniadau adrodd mewn achosion o gamymddwyn yn y sector addysg	2.4 - 2.7
Yr amgylchiadau pan fo angen adrodd am achosion yn uniongyrchol wrth yr Awdurdod Diogelu Annibynnol	3.1 - 3.6
Yr amgylchiadau pan fo angen adrodd am achosion yn uniongyrchol wrth Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru	
Camymddwyn	4.1 - 4.10
Anghymhwystra	4.11 - 4.12
Achlysuron eraill pan ddylid adrodd wrth naill ai'r Awdurdod Diogelu Annibynnol neu Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru	
Cytundebau cyfaddawd	5.1
Myfyrwyr	5.2 - 5.3
Materion Cyffredinol	
Achosion eraill	6.1
Cyfrinachedd yr adroddiadau	6.2
Rhannu gwybodaeth	6.3 - 6.4

Atodiadau

Atodiad A: Rheoliadau Addysg (Cyflwyno Gwybodaeth)
(Cymru) 2009

Atodiad B: Yr amgylchiadau pan fo dyletswydd ar Gyflogwr
neu Asiant i gyfeirio gwybodaeth at yr Awdurdod
Diogelu Annibynnol

Atodiad C: Diffiniadau

Atodiad D: Manylion Cyswllt Allweddol

Crynodeb

1.1 Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu canllawiau manwl i gyflogwyr ac asiantwyr ynglŷn â'r newidiadau sydd wedi eu gwneud yn y trefniadau ar gyfer adrodd am achosion o gamymddwyn yn y gwasanaeth addysg yng Nghymru o ganlyniad i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 a Rheoliadau Addysg (Cyflwyno Gwybodaeth) (Cymru) 2009. **Dylai pob cyflogwr ddilyn y canllawiau hyn o 12 Hydref 2009 ymlaen.**

1.2 Mae'r cylchlythyr hwn yn disodli Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 33/2005 "*Adrodd ar Achosion o Gamymddwyn neu Anghymhwysra Proffesiynol yn y Sector Addysg*", a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2005, ac a oedd yn pennu'r trefniadau o dan y Rheoliadau Addysg (Cyflwyno Gwybodaeth) (Cymru) 2003 blaenorol. Dylai pob cyflogwr barhau i ddilyn y canllawiau hyn hyd nes daw'r trefniadau adrodd newydd i rym ar 12 Hydref 2009.

1.3 Nid yw'r cylchlythyr hwn yn darparu canllawiau hollgynhwysol ar y Cynllun Fetio a Gwahardd newydd, yr Awdurdod Diogelu Annibynnol (ADA) na'r goblygiadau ehangach i gyflogwyr ac asiantwyr. Mae'r wybodaeth honno ar gael ar wefan yr ADA yn www.isa-gov.org. Rhoddir y manylion cyswllt ar gyfer ADA yn Atodiad D.

1.4 Canllawiau anstatudol yw'r rhain ac ni ddylid tybio'u bod yn darparu cyngor cyfreithiol awdurdodol. Os oes unrhyw amheuaeth sut y dylid eu cymhwyso neu'u dehongli, dylid ceisio cyngor cyfreithiol.

1.5 Cyn cynnal yr ymgynghoriad cyhoeddus, bu'r Panel Cyngori ar Lwyth Gwaith Ysgolion (SWAP) yn ystyried y ddogfen hon, a chytunodd aelodau'r panel nad oedd unrhyw ystyriaethau sylweddol yn codi o ran baich gwaith.

Cefndir

Y Cynllun Fetio a Gwahardd

2.1 Y Cynllun Fetio a Gwahardd yw un o atebion allweddol Llywodraeth y DU i lofruddiaethau Holly Wells a Jessica Chapman gan Ian Huntley, digwyddiad a hoeliodd sylw'r cyhoedd ar y dull o fetio'r bobl sy'n gweithio gyda phlant. O ganlyniad i hynny, un o argymhellion Ymchwiliad Bichard oedd cynllun newydd a olygai bod pob un a fyddai'n gweithio gyda phlant neu oedolion agored i niwed yn cael ei wirio a'i gofrestru. Arweiniodd hynny at Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, a sefydlodd y Cynllun Fetio a Gwahardd ("y Cynllun"). Mae'r Cynllun yn gymwys i Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Sefydlwyd trefniadau cyfatebol yn yr Alban.

2.2 Mae'r Cynllun yn cydnabod yr angen am un asiantaeth sengl i fetio a chofrestru pob unigolyn sy'n dymuno gweithio, neu wirfoddoli i gynorthwyo, gyda phlant neu oedolion agored i niwed, ac i wahardd pobl anaddas. Crëwyd yr Awdurdod Diogelu Annibynnol (ADA) i gyflawni'r rôl honno yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Corff Cyhoeddus Anadrannol yw ADA, a noddir gan y Swyddfa Gartref. Bydd ADA yn gwahardd y bobl y mae'n hysbys eu bod yn peri risg i blant neu oedolion agored i niwed, ac yn cofrestru'r bobl na wyddys am unrhyw reswm pam y byddent yn peri risg.

2.3 Y prif newidiadau o dan y Cynllun yw:

- **Cyflwyno'r term "Gweithgaredd a Reoleiddir":**

"Gweithgaredd a Reoleiddir" ("Regulated activity") yw'r term eang a ddefnyddir yn Neddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 am weithgareddau lle mae pobl yn gweithio neu'n gwirfoddoli mewn cysylltiad agos â phlant a/neu oedolion agored i niwed. Mae gweithgaredd a reoleiddir yn cynnwys:

- ymgymryd â gweithgareddau penodol megis addysgu, hyfforddi, goruchwyllo, gofalu am, neu ddarparu arweiniad neu driniaeth i blant/oedolion agored i niwed, neu faethu neu ddarparu gofal plant;
- swyddi penodol megis llywodraethwr ysgol, cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol i blant neu oedolion, ac unrhyw waith a gyflawnir mewn ystod gyfyngedig o leoliadau

penodol megis ysgolion, cartrefi gofal a meithrinfeydd dydd/
grwpiau chwarae;

- pobl sy'n rheoli, ar sail reolaidd, waith beunyddiol y rhai sy'n cyflawni gweithgareddau penodol neu'n gweithio mewn lleoliadau penodol.

- **Integreiddio'r rhestrau:** O 12 Hydref 2009 ymlaen, disodlir y tair rhestr wahardd gyfredol (Deddf Amddiffyn Plant (DAP), Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (AOAN) a Rhestr 99) gan ddwy restr wahardd newydd (y 'Rhestr Wahardd Plant' a'r 'Rhestr Wahardd Oedolion'), a weinyddir gan ADA yn hytrach na chan nifer o wahanol adrannau llywodraeth.
- **Dyletswydd i gyfeirio gwybodaeth:** Mae dyletswydd ar gyflogwyr, cyflenwyr personél (asiantaethau/busnesau cyflogi a sefydliadau addysgol sy'n trefnu lleoliadau i fyfyrwyr), awdurdodau lleol a rheoleiddwyr proffesiynol, i gyfeirio at ADA unrhyw wybodaeth am unigolion a allai beri risg i blant ac oedolion agored i niwed, er mwyn sicrhau y gellir canfod a delio â bygythiadau posibl i grwpiau sy'n agored i niwed.
- **Gwneud penderfyniadau annibynnol a chyson:** Yn flaenorol yng Nghymru a Lloegr, gwnaed penderfyniadau i wahardd neu gyfyngu ar gyflogaeth mewn cysylltiad â phlant gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (DCSF). Ar 20 Ionawr 2009 dechreuodd ADA wneud y penderfyniadau ar y tair rhestr wahardd gyfredol, ac o 12 Hydref 2009 ymlaen, ADA fydd yn gwneud pob penderfyniad disgresiynol ynglŷn â phwy ddylid ei osod ar y rhestrau gwahardd ADA newydd, pa un ai cyn cyflogi unigolyn neu, pan fo angen, yn dilyn atgyfeiriad i'r Cynllun.
- **Gwiriadau cyn cyflogi:** bydd y Cynllun o gymorth i sicrhau bod y rhai y gwyddys eu bod yn peri risg o niwed i blant a/neu oedolion agored i niwed yn cael eu hatal rhag ymuno â'r gweithlu perthnasol ar y dechrau. Bydd angen i unigolion sy'n dymuno ymgymryd â "gweithgaredd a reoleiddir" (e.e. addysgu) fynd yn aelod o'r Cynllun, trwy gofrestru gydag ADA. Bydd pob unigolyn a gofrestrir gan ADA yn destun monitro parhaus. Pan ddaw gwybodaeth newydd yn hysbys am

unigolyn a gofrestrwyd gydag ADA, megis rhybudd neu gollfarn, neu atgyfeiriad oddi wrth gyflogwr, sy'n dangos ei fod yn peri risg i blant a/neu oedolion agored i niwed, bydd ADA yn adolygu ei benderfyniad gwreiddiol i gofrestru'r unigolyn. Daw'r rhan hon o'r Cynllun i rym yng Ngorffennaf 2010, a rhoddir hi ar waith fesul cam dros nifer o flynyddoedd tan 2015; mae canllawiau pellach ar hyn ar gael gan ADA.

Crynodeb o'r newidiadau yn y trefniadau adrodd mewn achosion o gamymddwyn yn y sector addysg

2.4 Yn flaenorol, roedd yn ofynnol, o dan Reoliadau Addysg (Cyflwyno Gwybodaeth) (Cymru) 2003, bod cyflogwyr ac asiantaethau cyflenwi athrawon yn adrodd am achosion o gamymddwyn proffesiynol wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru (a fyddai wedyn yn cyfeirio achosion ymlaen at yr Ysgrifennydd Gwladol yn yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, i'w hystyried o dan Adran 142 o Ddeddf Addysg 2002) ac achosion o anghymhwysra proffesiynol at Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Roedd trefniadau cyffelyb yn gymwys i gwmnïau Gyrfa Cymru, yn rhan o'u contractau blynyddol gyda Gweinidogion Cymru.

2.5 Oherwydd gofynion y Cynllun, a ddisgrifir uchod, mae'r ffordd yr adroddir am achosion o gamymddwyn yn y gwasanaeth addysg wedi ei newid.

2.6 O **12 Hydref 2009**, ni fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn chwarae unrhyw ran mewn atgyfeirio achosion o gamymddwyn proffesiynol. Bydd angen i gyflogwyr wneud atgyfeiriadau uniongyrchol, at ADA o dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 os oes mater diogelu yn codi, neu fel arall, at Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru o dan Reoliadau Addysg (Cyflwyno Gwybodaeth) (Cymru) 2009, yn ddibynnol ar natur y weithred, a pha un ai athro neu athrawes gofrestredig ynteu gweithiwr arall a gyflawnodd y weithred. Rhoddir crynodeb o'r llwybrau atgyfeirio, a chyflwynir gwybodaeth fwy manwl yn adrannau 3 a 4 o'r ddogfen hon.

2.7 Y llwybrau atgyfeirio newydd o 12 Hydref 2009 ymlaen fydd:

- **Atgyfeiriadau uniongyrchol at ADA:** O dan adrannau 35, 36 a 39 o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, mae'n ofynnol bod cyflogwyr, asiantwyr ac awdurdodau lleol yn adrodd yn uniongyrchol wrth ADA am bobl sydd wedi niweidio, neu sy'n peri risg o niweidio, plant a/neu oedolion agored i niwed. Cynhwysir dyfyniad o adrannau 35, 36 a 39 o'r Ddeddf yn Atodiad B.
- **Atgyfeiriadau uniongyrchol at Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru:** Rhaid i gyflogwyr athrawon a gofrestrwyd gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, ac asiantaethau cyflenwi athrawon, adrodd am achosion o gamymddwyn ac anghymhwystra proffesiynol wrth Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, pan **nad** yw'r athrawon wedi niweidio, ac nad ydynt yn peri risg o niweidio plant a/neu oedolion agored i niwed. Y Rheoliadau sy'n llywodraethu'r trefniadau adrodd hyn yw Rheoliadau Addysg (Cyflwyno Gwybodaeth) (Cymru) 2009. Cynhwysir copi o'r Rheoliadau yn Atodiad A.

Yr amgylchiadau pan fo angen adrodd am achosion yn uniongyrchol wrth yr Awdurdod Diogelu Annibynnol

3.1 Rhaid i gyflogwyr a darparwyr gwasanaeth gyfeirio gwybodaeth at yr ADA o dan y Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 os ydynt wedi symud unigolyn ymaith o weithgaredd a reoleiddir, oherwydd bod y cyflogwr yn tybio bod yr unigolyn wedi ymddwyn mewn modd perthnasol, neu wedi peri risg o niwed i blentyn neu oedolyn agored i niwed, neu wedi gadael ei swydd mewn amgylchiadau lle y byddai neu y gallai fel arall fod wedi ei ddiswyddo oherwydd ei fod wedi niweidio, neu wedi peri risg o niweidio, plentyn neu oedolyn agored i niwed.

3.2 Mae'r sefydliadau canlynol o dan ddyletswydd gyfreithiol i gyfeirio gwybodaeth berthnasol at yr ADA:

- Timau amddiffyn oedolion/plant yn yr awdurdodau lleol;
- Cyrff proffesiynol ac awdurdodau goruchwyliol a enwir yn Neddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006;
- Cyflogwyr a darparwyr gweithgaredd a reoleiddir neu a reolir; a
- chyflenwyr personél (er enghraifft, asiantaethau cyflogi, busnesau cyflogi a sefydliadau addysg sy'n trefnu lleoliadau myfyrwyr).

3.3 Os yw cyflogai yn gadael ei swydd cyn iddo gael ei ddiswyddo, rhaid i'r cyflogwr atgyfeirio'r cyflogai at ADA os byddai'r cyflogai wedi ei ddiswyddo, neu hwyrach wedi ei ddiswyddo, oherwydd mater diogelu.

3.4 Dylai gwybodaeth berthnasol gael ei chyfeirio at ADA cyn gynted ag y daw ar gael. Ni fydd y cynllun newydd yn gweithio'n effeithiol oni fydd ADA'n llwyddo i leihau'r amser rhwng yr adeg y daw'n hysbys bod unigolyn yn peri risg a'r adeg y gwaherddir yr unigolyn hwnnw rhag gweithio gyda phlant a/neu oedolion agored i niwed.

3.5 Dylai'r wybodaeth a gyfeirir at ADA gynnwys unrhyw faterion disgyblu a fyddai'n tynnu sylw at bryder ynghylch y niwed neu'r risg o niwed i blant neu oedolion agored i niwed, yn ogystal â gwybodaeth arall, megis:

- cofnodion gwrandawiadau disgyblu;
- datganiadau tystion;

- llythyr diswyddo/atal;
- cofnodion gwasanaethau cymdeithasol.

Yn ychwanegol, rhaid i gyflogwyr, awdurdodau lleol a chyflenwyr personél ddarparu gwybodaeth benodol i ADA os gofynnir iddynt wneud hynny.

3.6 Mae ADA wedi datblygu ffurflen atgyfeirio i'w defnyddio gan gyflogwyr sy'n atgyfeirio achosion. Gofynnir i gyflogwyr lenwi'r ffurflen briodol a'i dychwelyd at yr Awdurdod Diogelu Annibynnol ynghyd ag unrhyw ddogfennau ategol. Mae gwybodaeth bellach ar sut i wneud atgyfeiriad at ADA, gan gynnwys y ffurflenni atgyfeirio, ar gael ar wefan ADA yn www.isa-gov.org

Yr amgylchiadau pan fo angen adrodd am achosion yn uniongyrchol wrth Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

Camymddwyn

4.1 Mae'n ofynnol, o dan Reoliadau Addysg (Cyflwyno Gwybodaeth) (Cymru) 2009, bod cyflogwyr perthnasol yn adrodd wrth Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru os ydynt yn peidio â defnyddio gwasanaethau athro neu athrawes gofrestrdig ar sail camymddwyn, anghymhwysra proffesiynol neu gollfarn am dramgwydd perthnasol, pan nad yw'r ymddygiad yn cynnwys niwed, neu'r risg o niwed, i blentyn. Gall hyn gynnwys achosion, er enghraifft, lle mae'r athro/athrawes wedi ffugio gwaith cwrs neu ladrata arian o'r ysgol.

4.2 Mae'n ofynnol gwneud adroddiad hefyd os byddai cyflogwr hwyrach wedi peidio â defnyddio gwasanaethau'r athro/athrawes ar un o'r seiliau hynny, pe na bai'r athro/athrawes eisoes wedi peidio â darparu'r gwasanaethau hynny. Mae'n ofynnol, felly, bod cyflogwr perthnasol yn gwneud adroddiad pan fo athro cofrestredig yn ymddiswyddo mewn amgylchiadau lle y gallai fod wedi ei ddiswyddo ar y seiliau hynny.

4.3 Mae'n ofynnol bod asiantwyr yn adrodd wrth Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru pan fo asiant wedi terfynu trefniadau ar gyfer athro cofrestredig neu athrawes gofrestrdig ar sail camymddwyn, anghymhwysra proffesiynol neu gollfarn am dramgwydd perthnasol, pan **nad yw'r** ymddygiad yn cynnwys niwed, neu'r risg o niwed, i blentyn.

4.4 Mae'n ofynnol gwneud adroddiad hefyd os byddai'r asiant hwyrach wedi terfynu trefniadau ar sail o'r fath, pe na bai'r athro cofrestredig neu'r athrawes gofrestrdig eisoes wedi eu terfynu; neu os byddai hwyrach wedi ymatal rhag gwneud trefniadau newydd ar gyfer athro cofrestredig ar sail o'r fath, pe na bai'r athro cofrestredig eisoes wedi peidio â rhoi ei hunan ar gael i wneud y gwaith.

4.5 Pan fo athro cofrestredig neu athrawes gofrestrdig yn ymddiswyddo tra bo achos disgyblu am honiad o gamymddwyn difrifol yn yr arfaeth, neu heb ei gwblhau, dylai'r cyflogwr perthnasol neu asiant gwblhau'r achos cyn belled ag y bo modd, a rhoi gwybod i'r athro cofrestredig ei fod yn gwneud hynny. Yn achos ymddiswyddiad o dan amgylchiadau o'r fath, bydd angen i'r

corff llywodraethu farnu, ar sail yr holl dystiolaeth sydd ar gael, pa un a fyddai diswyddo wedi bod yn ganlyniad priodol ai peidio, pe na bai'r ymddiswyddiad wedi digwydd.

4.6 Caiff Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru hefyd ystyried achosion o gamymddwyn honedig yn erbyn athrawon cofrestredig a gyfeirir ato gan berson ac eithrio cyflogwr neu asiant (er enghraifft, rhiant neu gydweithiwr), ar yr amod nad yw'r camymddwyn honedig yn cynnwys niwed, neu risg o niwed, i blentyn. Mewn achos o'r fath, swyddog awdurdodedig priodol y Cyngor fydd yn penderfynu a ddylid ymchwilio i'r achos ai peidio.


4.7 Rhaid i gyflogwyr ac asiantwyr atgyfeirio achosion pan fo athrawon cofrestredig wedi eu diswyddo (neu os byddent hwyrach wedi eu diswyddo pe na byddent eisoes wedi ymddiswyddo) oherwydd iddynt niweidio, neu beri risg o niwed, i blentyn neu oedolyn agored i niwed, yn uniongyrchol at ADA gan ddilyn y canllawiau a bennir yn adran 3.

4.8 Dylid adrodd am achosion wrth Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn brydlon, sef o fewn mis os oes modd, ar ôl peidio â defnyddio gwasanaethau athro cofrestredig neu athrawes gofrestrdedig. Mae'n arbennig o bwysig bod yr adroddiadau yn cynnwys ffeithiau llawn yr achos, ynghyd â chopïau o unrhyw dystiolaeth ategol megis datganiadau ynglŷn â'r camymddwyn, nodiadau am unrhyw gyfweliadau â'r athro a chofnodion unrhyw wrandawliadau disgyblu. Rhoddir rhagor o fanylion am yr wybodaeth y dylai cyflogwyr ac asiantwyr ei darparu i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn yr Atodlen i Reoliadau Addysg (Cyflwyno Gwybodaeth) (Cymru) 2009, a atgynhychir yma yn Atodiad A.

4.9 Dylai cyflogwyr ac asiantwyr roi gwybod hefyd i'r athro/ athrawes dan sylw, yr adroddir amgylchiadau'r achos wrth Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, ar gyfer eu hystyried yn unol â gweithdrefnau disgyblu'r Cyngor. Byddai'n fuddiol pe bai'r cyflogwr neu asiant yn rhoi copi o'r cylchlythyr canllaw hwn i'r athro, ynghyd â chopi o'r canllawiau ar weithdrefnau disgyblu Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru; gellir cael copi o'r canllawiau olaf hyn trwy gysylltu â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru gan ddefnyddio'r manylion cyswllt yn Atodiad D, neu oddi ar wefan y Cyngor yn www.gtcw.org.uk.

4.10 Unwaith y bydd wedi cael adroddiad, bydd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn ymchwilio i'r achos yn unol â'i weithdrefnau disgyblu. Canlyniad yr achos disgyblu a fydd yn penderfynu a yw'r athro/athrawes yn gymwys i aros ar Gofrestr y Cyngor ai peidio. Bydd y Cyngor yn ymdrin yn yr un modd ag achosion o anghymhwysra proffesiynol neu achosion pan fo athro cofrestredig wedi ei gael yn euog o dramgwydd perthnasol ar unrhyw adeg, neu os yw'n ymddangos y gallai athro cofrestredig fod yn euog felly, neu wedi ei gollfarnu felly.

Llwybrau ar gyfer atgyfeirio achosion o gamymddwyn gan athrawon ac eraill



Adrodd am achosion o Gamymddwyn
Medi 2009
Cylchlythyr Canllawiau
Rhif: 018/2009

Anghymhwysra

4.11 Ni wnaed unrhyw newid, y tro hwn, yn y trefniadau ar gyfer adrodd am anghymhwysra proffesiynol. Mae'n dal yn ofynnol bod cyflogwyr ac asiantwyr yn adrodd am achosion o anghymhwysra proffesiynol mewn cysylltiad ag athrawon cofrestredig yn uniongyrchol wrth Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Rhaid paratoi adroddiad pan fo:

- **cyflogwr:**

- a. wedi peidio â defnyddio gwasanaeth athro cofrestredig neu athrawes gofrestrdig ar sail sy'n ymwneud ag anghymhwysra proffesiynol yr athro/athrawes; neu
- b. os byddai hwyrach wedi peidio â defnyddio gwasanaethau'r athro cofrestredig neu athrawes gofrestrdig pe na bai'r athro/athrawes eisoes wedi rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaethau hynny.

- **asiant:**

- a. wedi terfynu'r trefniadau i weithiwr sy'n athro cofrestredig neu'n athrawes gofrestrdig gyflawni gwaith, ar sail sy'n ymwneud ag anghymhwysra proffesiynol yr athro/athrawes; neu
- b. os byddai hwyrach wedi terfynu trefniadau ar sail sy'n ymwneud ag anghymhwysra proffesiynol yr athro/athrawes, pe na bai'r athro/athrawes eisoes wedi eu terfynu; neu
- c. os byddai hwyrach wedi ymatal rhag gwneud trefniadau newydd ar gyfer athro cofrestredig neu athrawes gofrestrdig ar sail sy'n ymwneud ag anghymhwysra proffesiynol yr athro/athrawes, pe na bai'r athro/athrawes eisoes wedi peidio â rhoi ei hunan ar gael ar gyfer y gwaith.

4.12 Rhoddir rhagor o fanylion am yr wybodaeth y dylai cyflogwyr ac asiantwyr ei darparu i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn yr Atodlen i Reoliadau Addysg (Cyflwyno Gwybodaeth) (Cymru) 2009, a atgynhychir yma yn Atodiad A.

Llwybr atgyfeirio mewn achosion o anghymhwysra proffesiynol

Cyflogwr neu asiant

- wedi diswyddo athro cofrestredig/peidio â defnyddio gwasanaethau'r athro; neu
- hwyrach y byddai wedi diswyddo'r athro cofrestredig/peidio â defnyddio gwasanaethau'r athro pe na bai wedi ymddiswyddo neu gyffelyb

**Atgyfeirier
yr achos yn
uniongyrchol at
Gyngor Addysgu
Cyffredinol Cymru**

Achlysuron eraill pan ddylid adrodd wrth naill ai ADA neu Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

Cytundebau cyfaddawd

5.1 Os yw cyflogwr neu asiant yn cyrraedd cytundeb cyfaddawd sy'n caniatáu i'r athro adael ei gyflogaeth, ac os yw'r amgylchiadau a arweiniodd at hynny o fewn cwmpas adrannau 3 a 4 o'r canllawiau hyn, mae'r cyflogwr neu'r asiant yn parhau dan ddyletswydd i adrodd am yr achos wrth ADA neu wrth Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn unol â'r gweithdrefnau a bennir yn adrannau 3 a 4. Bydd dyletswydd hefyd ar gwmni Gyrfa Cymru, os yw'n cyrraedd cytundeb cyfaddawd gydag aelod o'r staff sy'n ymgymryd â gweithgaredd a reoleiddir, i adrodd am yr achos wrth ADA.

Myfyrwyr

5.2 Ar yr amod nad ydynt yn gweithredu fel cyflenwyr personél, nid yw'r gyfraith yn mynnu bod sefydliadau hyfforddi athrawon, a sefydliadau addysg bellach sy'n darparu cyrsiau hyfforddiant i nyrsgys meithrin neu weithwyr gofal plant eraill, yn adrodd wrth Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru am gollfarnau neu gamymddwyn arall gan y myfyrwyr sy'n dilyn y cyrsiau hyfforddi hynny. Mae'n ofynnol, fodd bynnag, o dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, bod sefydliad o'r fath yn adrodd wrth yr Awdurdod Diogelu Annibynnol os yw'r amgylchiadau'n dynodi bod y person dan sylw yn anaddas i weithio gyda phlant a/neu oedolion agored i niwed, ac y dylid ei wahardd i'w atal rhag ymgeisio am waith gyda phlant a/neu oedolion agored i niwed mewn maes arall. Gallai amgylchiadau o'r fath godi pan fo sefydliad yn symud person oddi ar gwrs hyfforddi oherwydd collfarn neu gamymddwyn mewn cysylltiad â phlant.

5.3 Pan fo sefydliad hyfforddi athrawon neu sefydliad addysg bellach yn gweithredu fel cyflenwr personél, mae dyletswydd ar y sefydliad i adrodd gwybodaeth wrth ADA o dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 os yw person wedi niweidio, neu wedi peri risg o niwed, i blentyn neu oedolyn agored i niwed.

Materion Cyffredinol

Achosion eraill

6.1 Os yw person sy'n gweithio mewn gweithgaredd a reoleiddir wedi ei ddiswyddo ar sail anaddasrwydd (pan na ddigwyddodd unrhyw weithred o gamymddwyn); diffyg o ran iechyd neu ei allu corfforol i gyflawni gweithgaredd perthnasol; neu mewn achosion ynglŷn â staff nad ydynt yn athrawon (e.e. gofalwyr ysgol, staff swyddfa), ac nad oes a wnelont â niwed neu'r risg o niwed i blentyn, dylid trin yr achos o dan weithdrefnau disgyblu'r cyflogwr ei hunan yn unig, ac ni ddylid ei atgyfeirio at ADA nac at Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.

Cyfrinachedd yr adroddiadau

6.2 Bydd ADA a Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn trin yr adroddiadau o dan amodau cyfrinachol llym. Cedwir yr holl dystiolaeth a fydd ar gael, papurau'r achosion a'r cofnodion yn ddiogel a chyfrinachol. Ni fydd ADA na Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn gwneud unrhyw sylwadau am achosion unigol wrth ymateb i ymholiadau gan y cyfryngau neu'r cyhoedd. Wrth gyflwyno adroddiadau, dylid eu marcio â'r geiriau 'preifat a chyfrinachol'.

Rhannu gwybodaeth

6.3 Yn gyffredinol, ni fydd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru nac ADA yn rhannu gwybodaeth â neb ac eithrio'r athro neu'r gweithiwr yr adroddwyd am ei achos ond mewn rhai amgylchiadau gall Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru neu ADA rannu gwybodaeth gyda'r cyflogwr neu'r parti sy'n atgyfeirio, os penderfynant bod angen iddynt wneud sylw. Mater i'r cyflogwr (ar y cyd â'r Pwyllgor Ardal Amddiffyn Plant os oes pryderon ynghylch amddiffyn plant) yw ystyried yr angen i rannu unrhyw wybodaeth am yr achos gyda chyflogwyr neu ddarpar gyflogwyr eraill.

6.4 Mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft os yw'r achos yn un a allai arwain at wahardd neu gyfyngu, gall ADA ddatgelu gwybodaeth ffeithiol i ddarpar gyflogwr. Gall ADA hefyd ddatgelu gwybodaeth i'r heddlu.

Atodiad A

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2009 Rhif 1350 (Cy.126)

ADDYSG, CYMRU

**Rheoliadau Addysg (Cyflenwi
Gwybodaeth) (Cymru) 2009**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr athrawon sydd wedi'u cofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ("y Cyngor") ac i asiantaethau cyflenwi gyflwyno adroddiad i'r Cyngor am achosion camymddwyn ac achosion anghymhwysedd ac eithrio'r achosion hynny y mae'n ofynnol iddynt ddarparu gwybodaeth amdanynt i'r Bwrdd Gwahardd Annibynnol o dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006. Maent yn dirymu Rheoliadau Addysg (Cyflenwi Gwybodaeth) (Cymru) 2003 a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiadau am achosion camymddwyn gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru ac i adroddiadau am achosion anghymhwysedd gael eu cyflwyno i'r Cyngor. O dan y Rheoliadau newydd hyn mae adroddiad am bob achos i'w gyflwyno i'r Cyngor.

Rhaid i gyflogwyr gyflwyno adroddiad i'r Cyngor os ydynt yn rhoi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau athro cofrestredig neu athrawes gofrestrdig ar sail benodol neu os gallent fod wedi gwneud hynny pe na bai'r unigolyn hwnnw eisoes wedi rhoi'r gorau i ddarparu ei wasanaethau. Rhaid i asiantau gyflwyno adroddiad i'r Cyngor os ydynt wedi trefnu i athro cofrestredig neu athrawes gofrestrdig wneud gwaith ar ran awdurdod addysg lleol, corff llywodraethu neu berchennog ysgol annibynnol a'u bod wedi terfynu'r trefniadau hynny ar sail benodol, neu os gallent fod wedi gwneud hynny pe na bai'r athro neu'r athrawes eisoes wedi terfynu'r trefniadau neu wedi rhoi'r gorau i fod ar gael i weithio. Y seiliau penodedig yw camymddygiad, anghymhwysedd proffesiynol a cholffarniad am dramgwydd perthnasol. Mae tramgwydd perthnasol yn dramgwydd ac eithrio un nad oes ganddo berthnasedd o bwys i ffitrwydd person i fod yn athro cofrestredig neu'n athrawes gofrestrdig.

Mae'r Atodlen yn nodi'r wybodaeth sydd i'w darparu yn yr adroddiadau.

2009 Rhif 1350 (Cy.126)

ADDYSG, CYMRU

**Rheoliadau Addysg (Cyflwyno
Gwybodaeth) (Cymru) 2009**

Gwnaed 2 Mehefin 2009

*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 4 Mehefin 2009

Yn dod i rym 12 Hydref 2009

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 6, 15, 15A a 42(6) a (7) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ac Atodlen 2 iddi(1), ac a freiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru(2), ac ar ôl ymgynghori â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru'n unol ag adran 42(9) o'r Ddeddf.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cyflenwi Gwybodaeth) (Cymru) 2009 a deuant i rym ar 12 Hydref 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys pan fo'n ofynnol i gyflogwr perthnasol neu asiant ddarparu gwybodaeth i'r Bwrdd Gwahardd Annibynnol o dan adran 35, 36 neu 39 o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(3) mewn perthynas ag achos athro

(1) 1998 p.30. Mae Atodlen 2 yn gymwys o ran y Cyngor yn rhinwedd adran 9 o Ddeddf 1998. Disodlwyd adran 15 ac mewnosodwyd adran 15A gan baragraff 83 o Atodlen 21 i Ddeddf Addysg 2002 (p.32) a diwygiwyd y ddwy adran wedi hynny gan baragraffau 5 a 6 o Atodlen 9 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (p.47). I gael ystyr "prescribed" gweler adran 43(1) o Ddeddf 1998.

(2) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd adran 211 o Ddeddf Addysg 2002 a Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(3) 2006 p.47.

cofrestredig neu athrawes gofrestredig, y byddai fel arall yn ofynnol iddynt gyflwyno adroddiad ynghylch y ffeithiau amdanynt o dan reoliad 4(1) neu 5(1) o'r Rheoliadau hyn.

Dirymu

2. Mae Rheoliadau Addysg (Cyflenwi Gwybodaeth) (Cymru) 2003(1) wedi'u dirymu.

Dehongli

3. Ac eithrio pan fo'r cyd-destun yn mynnu fel arall, yn y Rheoliadau hyn—

mae i "asiant" yr ystyr a roddir i "agent" gan adran 15A(1) o Ddeddf 1998;

ystyr "athro cofrestredig neu athrawes gofrestredig" ("registered teacher") yw –

- (a) person sydd am y tro wedi'i gofrestru o dan adran 3 o Ddeddf 1998;
- (b) person a oedd wedi'i gofrestru o dan adran 3 o Ddeddf 1998 adeg unrhyw ymddygiad neu dramgwydd honedig ar ei ran; neu
- (c) person sydd wedi gwneud cais am gael ei gofrestru o dan adran 3 o Ddeddf 1998;

mae i "cyflogwr perthnasol" yr ystyr a roddir i "relevant employer" gan adran 15(5) o Ddeddf 1998;

ystyr "y Cyngor" ("the Council") yw Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru;

ystyr "Deddf 1998" ("the 1998 Act") yw Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998;

ystyr "gwasanaethau" ("services") yw gwasanaethau a ddarperir i gyflogwr perthnasol yng Nghymru ac mae'n cynnwys gwasanaethau proffesiynol a gwirfoddol;

ystyr "Pwyllgor" ("Committee") yw Pwyllgor Ymchwilio, Pwyllgor Cymhwysedd Proffesiynol neu Bwyllgor Ymddygiad Proffesiynol a sefydlwyd o dan Reoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) 2001(2);

ystyr "Pwyllgor Ymchwilio" ("Investigating Committee") yw pwyllgor a sefydlwyd o dan reoliad 3(1) o Reoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) 2001; ac

(1) O.S. 2003/542 (Cy.76).

(2) O.S. 2001/1424 (Cy.99).

ystyr “trefniadau” (“*arrangements*”) yw trefniadau o'r math y cyfeirir atynt yn adran 15A(1) o Ddeddf 1998 i weithiwr sy'n athro cofrestredig neu athrawes gofrestrdedig wneud gwaith yng Nghymru.

Adroddiadau cyflogwr

4.—(1) O ran cyflogwr perthnasol—

- (a) pan fo wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau athro cofrestredig neu athrawes gofrestrdedig ar sail —
 - (i) camymddygiad;
 - (ii) anghymhwysedd proffesiynol; neu
 - (iii) colffarniad am dramgwydd perthnasol o fewn ystyr “relevant offence” ym mharagraff 8 o Atodlen 2 i Ddeddf 1998; neu
- (b) pan allai fod wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau athro cofrestredig neu athrawes gofrestrdedig ar sail o'r fath pe na bai'r athro neu'r athrawes wedi rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaethau hynny,

rhaid i'r cyflogwr gyflwyno i'r Cyngor adroddiad am ffeithiau'r achos a darparu'r holl wybodaeth a restrir yn Rhan 1 o'r Atodlen ac sydd ar gael i'r cyflogwr mewn perthynas â'r athro neu'r athrawes.

(2) Rhaid i'r Cyngor drefnu bod yr holl wybodaeth a ddarperir iddynt o dan y rheoliad hwn ar gael i Bwyllgor Ymchwilio.

Adroddiadau asiant

5.—(1) O ran asiant—

- (a) pan fo wedi terfynu trefniadau ar sail—
 - (i) camymddygiad;
 - (ii) anghymhwysedd proffesiynol; neu
 - (iii) colffarniad am dramgwydd perthnasol o fewn ystyr “relevant offence” ym mharagraff 8 o Atodlen 2 i Ddeddf 1998;
- (b) pan allai fod wedi terfynu trefniadau ar sail o'r fath pe na bai'r athro neu'r athrawes wedi'u terfynu; neu
- (c) pan allai fod wedi ymatal rhag gwneud trefniadau newydd ar gyfer athro cofrestredig neu athrawes gofrestrdedig ar sail o'r fath pe na bai'r athro neu'r athrawes wedi rhoi'r gorau i ofalu bod ar gael i weithio,

rhaid i'r asiant gyflwyno i'r Cyngor adroddiad am ffeithiau'r achos a darparu'r holl wybodaeth a restrir yn Rhan 2 o'r Atodlen ac sydd ar gael i'r asiant mewn perthynas â'r athro neu'r athrawes.

(2) Rhaid i'r Cyngor drefnu bod yr holl wybodaeth a ddarperir iddynt o dan y rheoliad hwn ar gael i Bwyllgor Ymchwilio.

Jane Hutt

Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

2 Mehefin 2009

YR ATODLEN

Rheoliadau 4 a 5

RHAN 1

Yr wybodaeth sydd i'w chyflenwi gan gyflogwr perthnasol

1. Datganiad o'r rhesymau dros roi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau'r person.

2. Cofnodion y cyflogwr ynglŷn â rhoi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau'r person neu ag unrhyw bryd yr ystyriwyd rhoi'r gorau i wneud hynny, gan gynnwys nodiadau a chofnodion cyfarfodydd, nodiadau cyf-weld, a thystiolaeth a gyflenwyd i neu a sicrhawyd gan y cyflogwr.

3. Cofnodion y cyflogwr ynglŷn â'r ymddygiad a arweiniodd yn y pen draw at roi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau'r person neu a allai, oni bai bod y person wedi rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaethau hynny, fod wedi arwain y cyflogwr i roi'r gorau i ddefnyddio ei wasanaethau, gan gynnwys nodiadau a chofnodion cyfarfodydd, nodiadau cyf-weld, a thystiolaeth a gyflenwyd i neu a sicrhawyd gan y cyflogwr.

4. Llythyrau, rhybuddion neu hysbysiadau gan y cyflogwr a ddyroddwyd i berson mewn perthynas â rhoi'r gorau i ddefnyddio ei wasanaethau neu ag unrhyw bryd yr ystyriwyd rhoi'r gorau i wneud hynny, neu'r ymddygiad a arweiniodd yn y pen draw at roi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau'r person neu a allai, oni bai bod y person wedi rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaethau hynny, fod wedi arwain y cyflogwr i roi'r gorau i ddefnyddio'i wasanaethau, ac atebion neu gynrychioliadau'r person mewn perthynas â hynny.

5. Unrhyw ddatganiadau eraill, cynrychioliadau eraill a thystiolaeth arall a gyflwynwyd gan berson i'r cyflogwr mewn perthynas â rhoi'r gorau i ddefnyddio ei wasanaethau neu ag unrhyw bryd yr ystyriwyd rhoi'r gorau i wneud hynny, neu'r ymddygiad a arweiniodd yn y pen draw at roi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau'r person neu a allai, oni bai bod y person wedi rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaethau hynny, fod wedi arwain y cyflogwr i roi'r gorau i ddefnyddio'i wasanaethau.

6. Llythyr yn hysbysu o fwriad person i roi'r gorau i ddarparu gwasanaethau.

7. Unrhyw ddogfen arall neu wybodaeth arall y mae'r cyflogwr yn ystyried yn berthnasol i unrhyw ymchwiliad a allai gael ei gynnal gan Bwyllgor Ymchwilio neu unrhyw achos a allai gael ei ddwyn gan Bwyllgor yn erbyn athro cofrestredig neu athrawes gofrestredig.

RHAN 2

Yr wybodaeth sydd i'w chyflenwi gan asiant

1. Datganiad o'r rhesymau dros derfynu'r trefniadau.

2. Unrhyw gofnodion ynglŷn â therfynu'r trefniadau neu ag unrhyw adeg yr ystyriwyd eu derfynu, gan gynnwys nodiadau a chofnodion cyfarfodydd, nodiadau cyf-weld, a thystiolaeth a gyflenwyd i neu a sicrhawyd gan yr asiant.

3. Unrhyw gofnodion ynglŷn â'r ymddygiad a arweiniodd yn y pen draw at derfynu trefniadau neu a allai, oni bai bod y gweithiwr wedi derfynu trefniadau, fod wedi arwain i'r asiant eu derfynu, neu a allai, oni bai bod y gweithiwr wedi rhoi'r gorau i ofalu bod ar gael i weithio, fod wedi arwain yr asiant i ymatal rhag gwneud trefniadau newydd, gan gynnwys nodiadau a chofnodion cyfarfodydd, nodiadau cyf-weld, a thystiolaeth a gyflenwyd i neu a sicrhawyd gan yr asiant

4. Llythrau, rhybuddion neu hysbysiadau gan asiant a ddyroddwyd i berson mewn perthynas â therfynu trefniadau, neu'r ymddygiad a arweiniodd yn y pen draw at derfynu trefniadau, neu a allai, oni bai bod y gweithiwr wedi derfynu trefniadau, fod wedi arwain yr asiant i'w derfynu, neu a allai, oni bai bod y gweithiwr wedi rhoi'r gorau i ofalu bod ar gael i weithio, fod wedi arwain yr asiant i ymatal rhag gwneud trefniadau newydd, ac atebion neu gynrychioliadau'r gweithiwr mewn perthynas â hynny.

5. Unrhyw ddatganiadau eraill, cynrychioliadau eraill a thystiolaeth arall a gyflwynwyd gan berson i'r asiant mewn perthynas â therfynu trefniadau, neu'r ymddygiad a arweiniodd yn y pen draw at derfynu trefniadau neu a allai, oni bai bod y gweithiwr wedi derfynu'r trefniadau, fod wedi arwain yr asiant i'w derfynu, neu a allai, oni bai bod y gweithiwr wedi rhoi'r gorau i ofalu bod ar gael i weithio, fod wedi arwain yr asiant i ymatal rhag gwneud trefniadau newydd.

6. Llythyr gan y gweithiwr yn derfynu'r trefniadau neu'n rhoi'r gorau i ofalu bod ar gael i weithio.

7. Unrhyw ddogfen arall neu wybodaeth arall y mae'r asiant yn ystyried yn berthnasol i unrhyw ymchwiliad a allai gael ei gynnal gan Bwyllgor Ymchwilio neu unrhyw achos a allai gael ei ddwyn gan Bwyllgor yn erbyn athro cofrestredig neu athrawes gofrestredig.

Atodiad B

Yr amgylchiadau pan fo Cyflogwr neu Asiant o dan ddyletswydd i atgyfeirio gwybodaeth i'r Awdurdod Diogelu Annibynnol

(Cyfieithiad cwrteisi o Adrannau 35, 36 a 39 o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006)

35. Darparwyr gweithgaredd a reoleiddir: dyletswydd i atgyfeirio

(1) Mae is-adran (2) yn gymwys i -

- a. darparwr gweithgaredd a reoleiddir sy'n dal unrhyw wybodaeth ragnodedig mewn perthynas â pherson (P) sy'n ymgymryd â gweithgaredd a reoleiddir a ddarperir ganddo ef;
- b. person cyfrifol ("responsible person" o fewn yr ystyr yn adran 23) sy'n dal unrhyw wybodaeth ragnodedig mewn perthynas â pherson (P) y mae'n caniatáu iddo ymgymryd â gweithgaredd a reoleiddir.

(2) Rhaid i berson y mae'r is-adran hon yn gymwys iddo ddarparu'r wybodaeth i'r Bwrdd Gwahardd Annibynnol ("Independent Barring Board") (IBB) -

- a. os yw'n tynnu yn ôl y caniatâd i P ymgymryd â'r gweithgaredd am reswm a grybwyllir yn is-adran (3), neu
- b. os nad yw'n tynnu yn ôl y caniatâd am reswm o'r fath ond y byddai neu y gallai fod wedi gwneud hynny pe na bai P wedi peidio, rywfodd arall, ag ymgymryd â'r gweithgaredd.

(3) Y rhesymau yw fod y person y mae is-adran (2) yn gymwys iddo yn credu -

- a. bod paragraff 1, 2, 7 neu 8 o Atodlen 3 yn gymwys i P,
- b. bod P wedi cyflawni ymddygiad perthnasol (o fewn ystyr paragraff 4 neu 10 o Atodlen 3), neu
- c. bod y prawf niwed wedi ei fodloni.

* Yn lle IBB darllener ADA. Yr ADA yw'r enw corfforaethol a roddwyd i'r Bwrdd Gwahardd Annibynnol a ffurfiwyd o dan y Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf.

**Cyfieithiad
cwrteisi o
Adrannau 35, 36
a 39 o Ddeddf
Diogelu Grwpiau
Hyglwyf 2006**

- (4) Y prawf niwed yw y gallai P -
- a. niweidio plentyn neu oedolyn agored i niwed,
 - b. achosi i blentyn neu oedolyn agored i niwed gael ei niweidio
 - c. rhoi plentyn neu oedolyn agored i niwed o dan risg o'i niweidio
 - d. ceisio niweidio plentyn neu oedolyn agored i niwed, neu
 - e. annog rhywun arall i niweidio plentyn neu oedolyn agored i niwed.
- (5) At ddibenion is-adran (3)(b), mae ymddygiad yn amhriodol os yw'n ymddangos i'r person y mae is-adran (2) yn gymwys iddo yn amhriodol ar ôl rhoi sylw i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan baragraff 4(6) neu 10(6) o Atodlen 3.
- (6) Os yw'r gweithgaredd a reoleiddir y mae P yn ymgymryd ag ef -
- a. yn weithgaredd a reoleiddir mewn perthynas ag oedolion agored i niwed, a
 - b. o fewn cwmpas adran 16,
- rhaid darllen is-adran (2) fel pe bai "Caiff" wedi ei osod yn lle "Rhaid".
- (7) Nid yw'r adran hon yn gymwys os yw'r amodau a nodir yn is-adran (2) wedi eu cyflawni eisoes cyn cychwyn yr adran

36. Cyflenwyr personél: dyletswydd i atgyfeirio

- (1) Rhaid i gyflenwr personél ddarparu i'r IBB unrhyw wybodaeth a ddelir ganddo mewn perthynas â pherson (P), a gyflenwyd ganddo i berson arall, os yw'n hysbys i'r cyflenwr bod P wedi peidio ag ymgymryd â gweithgaredd a reoleiddir neu weithgaredd a reolir, o dan yr amgylchiadau a grybwyllir yn is-adran (2)(a) neu (b) o adran 35.
- (2) Rhaid i gyflenwr personél sy'n asiantaeth gyflogi neu'n fusnes cyflogi ddarparu i'r IBB unrhyw wybodaeth ragnodedig a ddelir ganddo mewn perthynas â pherson (P) mae'n gweithredu ar ei ran

- a. os yw'r asiantaeth neu'r busnes yn penderfynu peidio â gweithredu ar ran P am reswm a grybwyllir yn is-adran (4), neu
- b. os nad yw'n penderfynu peidio â gweithredu ar ran P am reswm o'r fath ond byddai neu gallai fod wedi gwneud hynny pe na bai ei drefniant gyda P neu ei gyflogaeth ohono, wedi dod i ben rhywfodd arall.

(3) Rhaid i gyflenwr personél sy'n sefydliad addysgol ddarparu i'r IBB unrhyw wybodaeth ragnodedig a ddelir ganddo mewn perthynas â myfyriwr (P) sy'n dilyn cwrs yn y sefydliad -

- a. os yw'r sefydliad yn penderfynu peidio â chyflenwi P i berson arall i ymgymryd â gweithgaredd a reoleiddir neu a reolir am reswm a grybwyllir yn is-adran (4),
- b. os yw'r sefydliad yn penderfynu y dylai P beidio â dilyn cwrs yn y sefydliad am reswm a grybwyllir yn is-adran (4), neu
- c. os nad yw'n penderfynu fel y crybwyllir ym mharagraff (a) neu (b) am reswm o'r fath, ond y byddai neu y gallai fod wedi gwneud hynny pe na bai P, rywfodd arall, wedi peidio ag ymgymryd â'r gweithgaredd neu wedi peidio â dilyn y cwrs.

(4) Y rhesymau yw fod y cyflenwr personél yn credu -

- a. bod paragraff 1, 2, 7 neu 8 o Atodlen 3 yn gymwys i P,
- b. bod P wedi cyflawni ymddygiad perthnasol (o fewn ystyr paragraff 4 neu 10 o Atodlen 3), neu
- c. bod y prawf niwed wedi ei fodloni.

(5) Y prawf niwed yw y gallai P -

- a. niweidio plentyn neu oedolyn agored i niwed,
- b. achosi i blentyn neu oedolyn agored i niwed gael ei niweidio,
- c. rhoi plentyn neu oedolyn agored i niwed o dan risg o'i niweidio,
- d. ceisio niweidio plentyn neu oedolyn agored i niwed, neu
- e. annog rhywun arall i niweidio plentyn neu oedolyn agored i niwed.

(6) At ddibenion is-adran (4)(b), mae ymddygiad yn amhriodol os yw'n ymddangos i'r cyflenwr personél yn amhriodol ar ôl rhoi sylw i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan baragraff 4(6) neu 10(6) o Atodlen 3.

(7) Mae asiantaeth gyflogi yn gweithredu ar ran person os yw'n gwneud trefniadau gydag ef gyda golwg ar -

- a. darganfod cyflogaeth iddo gyda chyflogwr, neu
- b. ei gyflenwi i gyflogwyr ar gyfer ei gyflogi ganddynt hwy.

(8) Mae busnes cyflogi yn gweithredu ar ran person os yw'n ei gyflogi i weithredu ar ran a than reolaeth personau eraill mewn unrhyw swyddogaeth.

(9) Yn yr adran hon, mae i "gyflogaeth" yr ystyr a roddir i "employment" yn Neddf Asiantaethau Cyflogi 1973 (p. 35).

(10) Nid yw'r adran hon yn gymwys os yw'r amodau a nodir yn is-adran (1), (2) neu (3) wedi eu cyflawni eisoes cyn cychwyn yr adran.

39. Awdurdodau lleol: dyletswydd i atgyfeirio

(1) Rhaid i awdurdod lleol ddarparu i'r IBB unrhyw wybodaeth ragnodedig a ddelir ganddo os bodlonir naill ai'r amod cyntaf neu'r ail amod.

(2) Yr amod cyntaf yw fod yr awdurdod lleol yn credu -

- a. bod paragraff 1, 2, 7 neu 8 o Atodlen 3 yn gymwys i'r person,
- b. bod y person wedi cyflawni ymddygiad perthnasol (o fewn ystyr paragraff 4 neu 10 o Atodlen 3) a hynny wedi digwydd ar ôl cychwyn yr adran hon, neu
- c. bod y prawf niwed wedi ei fodloni.

- (3) Y prawf niwed yw y gallai person -
- niweidio plentyn neu oedolyn agored i niwed,
 - achosi i blentyn neu oedolyn agored i niwed gael ei niweidio,
 - rhoi plentyn neu oedolyn agored i niwed o dan risg o'i niweidio,
 - ceisio niweidio plentyn neu oedolyn agored i niwed, neu
 - annog rhywun arall i niweidio plentyn neu oedolyn agored i niwed.
- (4) Yr ail amod yw fod yr awdurdod lleol yn credu -
- bod y person yn ymgymryd neu y gallai ymgymryd â gweithgaredd a reoleiddir neu weithgaredd a reolir, a
 - (ac eithrio mewn achos pan fo paragraff 1, 2, 7 neu 8 o Atodlen 3 yn gymwys) y gallai'r IBB ystyried yn briodol cynnwys y person ar restr o rai a waherddir.
- (5) Caiff awdurdod lleol ddarparu i'r IBB unrhyw wybodaeth ragnodedig a ddelir ganddo ynglŷn â pherson
- os yw'r awdurdod lleol yn credu bod y person wedi cyflawni ymddygiad perthnasol (o fewn ystyr paragraff 4 neu 10 o Atodlen 3) cyn cychwyn yr adran hon, a
 - os yw'r amod yn is-adran (4) wedi ei fodloni.
- (6) At ddibenion is-adran (2)(b) neu (5)(a), mae ymddygiad yn amhriodol os yw'n ymddangos i'r awdurdod lleol yn amhriodol ar ôl rhoi sylw i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan baragraff 4(6) neu 10(6) o Atodlen 3.
- (7) Mae i "awdurdod lleol" yr ystyr a roddir i "local authority" yn Neddf Awdurdodau Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) 1970 (p. 39).

Atodiad C

Diffiniadau

Y diffiniad o 'athro cofrestredig'

Ystyr 'athro cofrestredig' neu 'athrawes gofrestrdig' yw -

- person sydd wedi ei gofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru;
- person a oedd wedi ei gofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ar yr adeg pan ddigwyddodd unrhyw ymddygiad neu dramgwydd honedig ar ran y person; neu
- person sydd wedi gwneud cais am gael ei gofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.

Y diffiniad o 'gyflogwr perthnasol'

Yn y Rheoliadau cyfeirir at 'gyflogwr perthnasol' neu 'asiant' gan olygu corff y mae'n ofynnol iddo wneud adroddiad.

Mae i 'gyflogwr perthnasol' yr ystyr a bennir yn Adran15(5) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, hynny yw:

- awdurdod addysg lleol;
- person sy'n cyflawni swyddogaeth ynglŷn â darparu addysg ar ran awdurdod addysg lleol;
- perchennog ysgol; neu
- gorff llywodraethu sefydliad addysg bellach.

Yn achos ysgol a gynhelir, y cyflogwr fel arfer fyddai'r Awdurdod Addysg Lleol (AALI) perthnasol. Er y caiff ysgolion a gynhelir gyflwyno adroddiadau eu hunain, cynghorir hwy i drafod y mater gyda'u AALI. Fel arfer, pan wneir yr atgyfeiriad gan yr ysgol ei hunan dylai gael ei wneud gan y pennaeth ar ran y corff llywodraethu.

Y diffiniad o 'asiant'

Asiant yw person sy'n gwneud trefniadau i berson arall gyflawni gwaith ar gais, neu gyda chydsyniad, cyflogwr perthnasol (pa un a wneir hynny o dan gontract ai peidio). Gall asiantwyr gynnwys asiantaethau cyflogi megis asiantaethau cyflenwi athrawon, contractwyr sy'n darparu gwasanaethau (e.e. arlwyo) mewn ysgolion neu sefydliadau addysg bellach, mudiadau gwirfoddol sy'n darparu pobl i weithio gyda phlant, sefydliadau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon, a sefydliadau eraill sy'n darparu cyrsiau astudio i nyrsys meithrin a gweithwyr gofal plant eraill.

Y diffiniad o 'dramgwydd perthnasol'

Mae i'r ymadrodd 'tramgwydd perthnasol', mewn cysylltiad ag athro cofrestredig neu athrawes gofrestredig, yr ystyr a briodolir i'r ymadrodd ym mharagraff 8 o Atodlen 2 i Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, h.y. yn achos collfarn yn y Deyrnas Unedig, tramgwydd troseddol ac eithrio un nad yw'n berthnasol, mewn unrhyw fodd o bwys, i'w addaswydd i fod yn athro cofrestredig neu athrawes gofrestredig; ac yn achos tramgwydd mewn unrhyw fan arall, tramgwydd a fyddai, pe cyflawnid ef yng Nghymru a Lloegr, yn dramgwydd fel a ddisgrifir uchod.

Atodiad D

Manylion Cyswllt Allweddol

Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

Cyswllt: Y Tîm Safonau Proffesiynol

Cyfeiriad: 4ydd Llawr
Tŷ Southgate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 029 2055 0350

Ffacs: 029 2055 0360

E-bost: professionalstandards@gtcw.org.uk

Gwefan: www.gtcw.org.uk/conduct.html

Cyswllt: Independent Safeguarding Authority

Cyfeiriad: PO Box 181
Darlington
DL1 9FA

Ffôn: 01325 953795 or 01325 953796

E-bost: ISADispatchTeam@homeoffice.gsi.gov.uk

Gwefan: www.isa.gov.org